WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 636A2013 |
| **Dyddiad** | 28 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Iwan

# Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 27 Awst 2013, rhoddais fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliannau.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

## Yn fy marn i, ac ar sail y gwaith a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac mae wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliannau o dan y Mesur:

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol: Gwerthuso Ein Perfformiad 2012-13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn glir;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion sydd eisiau darparu adborth neu wneud sylwadau ar yr Adolygiad;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion perfformiad fel y'i mesurir gan yr holl ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac

- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer gwella cael eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn adrodd ar y cynnydd.

Byddaf yn gwneud rhagor o waith manwl ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad y Cyngor dros yr ychydig fisoedd nesaf ac yn adrodd ar hyn, yn ogystal â chrynhoi fy holl waith a gwaith y rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi fel rhan o'r Asesiad Corfforaethol erbyn diwedd mis Chwefror 2014.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Gwilym Bury – Arweinydd Archwilio Perfformiad